

## **ATODIAD**

Diweddariad i adroddiad Cyngor Sir Ddinbych ar asesiad perygl llifogydd rhagarweiniol.

Adolygwyd asesiad perygl llifogydd rhagarweiniol (APLIRh) Cyngor Sir Ddinbych yn ystod 2017, gan ddefnyddio holl ddata a gwybodaeth berthnasol i berygl presennol llifogydd, a'i gytuno gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ar 22ain Rhagfyr 2017.

Mae'r datganiadau isod yn disgrifio'r adolygiad o'r asesiad perygl ers cyhoeddi adroddiad yr asesiad rhagarweiniol yn 2011.

### **Perygl llifogydd y gorffennol**

Bu adolygiad o lifogydd a gafwyd ers cyhoeddi'r Adroddiad Rhagarweiniol ar Asesu Perygl Llifogydd cyntaf yn 2011 a darganfu hwn fod y llifogydd canlynol wedi arwain at ganlyniadau niweidiol arwyddocaol yn lleol:

Yn 2016, arweiniodd llifogydd glaw at orlifo 6 eiddo preswyl ar hyd Ffordd Derwen a 5 uned fusnes ym Mharc Diwydiannol Alitts, yn y Rhyl. Penderfynodd ymchwiliadau i'r materion hyn bod angen gwella draeniau Ffordd Derwen yn y briffordd ac, yn y parc busnes preifat, bod busnesau wedi mynd dan ddŵr oherwydd nad oedd y rhwydwaith draeniau preifat cyffredin yn ddigonol a bod rhwystr ynddynt.

Yn 2017, arweiniodd llifogydd glaw at orlifo 6 eiddo preswyl ar hyd Ffordd Derwen, yn ogystal â 5 eiddo ar Garford Road, yn y Rhyl. Arweiniodd yr un glaw hefyd at orlifo dros 28 eiddo busnes yma ac acw ar Stryd Fawr Prestatyn a 6 eiddo ym Mro Berllan yn Rhuddlan. Mae ymchwiliadau i'r mater ar y gweill.

### **Perygl llifogydd yn y dyfodol**

Nodwyd y wybodaeth ganlynol ers cyhoeddi'r Adroddiad Rhagarweiniol ar Asesu Perygl Llifogydd cyntaf yn 2011, sydd wedi arwain at newid dealltwriaeth o berygl llifogydd yn y dyfodol:

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi derbyn gwybodaeth newydd, gan gynnwys data diweddaraf y map llifogydd dŵr arwyneb, sydd wedi gwella ein dealltwriaeth o berygl llifogydd glaw ledled y sir. Rydym hefyd wedi digido hen ddata llifogydd ac, ar hyn o bryd, rydym yn gweithio ar fapio'r rhwydwaith draenio dŵr arwyneb i nodi cysylltedd rhwng asedau draenio i ddeall yn well sut mae ein systemau draenio priffyrdd yn gweithio.

Nid yw CSDd wedi creu na derbyn gwybodaeth newydd i ddeall effaith newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol yn well o ran ffynonellau perygl llifogydd lleol.

Er bod data newydd, fel diweddariad y mapiau llifogydd dŵr arwyneb, wedi gwella ein dealltwriaeth gyffredinol o berygl llifogydd glaw ledled y sir, nid yw ein dealltwriaeth o berygl llifogydd sylweddol wedi newid ac ni nodwyd bod unrhyw ardaloedd newydd mewn perygl sylweddol.